***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1261 (Cy.118)

# HAWLIAU BRIDWYR PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *3 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *12 Mai 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 9(6) o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**) ar ôl ymgynghori â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn gynrychioliadol o'r personau y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 12 Mai 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol**

**2.** Mae adran 9(5) o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997 yn peidio â chael effaith.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thoma*

3 Mai 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.

(**2**) 1997 p.66. gweler adran 49(1) i gael y diffiniad o "the Ministers".

(**3**) Trosglwyddodd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) swyddogaethau''r Gweinidogion o dan adran 9 o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997, i''r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 12 Mai 2006.

Mae'r Gorchymyn yn dirwyn i ben yr esemptiad o ddefnydd blaenorol yn adran 9(5) o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997.

Paratowyd Arfarniad Rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Adran dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.